



Dear Colleague,

22/04/2022

Hoffwn agor rhifyn yr wythnos hon o Cyswllt y Prif Weithredwr drwy roi diolch enfawr i'm cydweithwyr ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol a gafodd wythnos a phenwythnos prysur arall dros ŵyl y banc.

Mae'r Uned Achosion Brys yn parhau i weithredu dan bwysau uwch. Hoffwn atgoffa'r rhai yn ein cymuned, os ydych chi'n meddwl bod angen i chi fynychu'r Uned Achosion Brys ac nad yw'n achos sy'n bygwth bywyd, ffoniwch 111 yn gyntaf. Gallwch hefyd ddefnyddio [GIG 111 Cymru](#) i gael mynediad at gyngor a gwybodaeth gofal iechyd. Rwy'n sylweddoli y bydd llawer ohonoch wedi clywed hyn droeon, ond teimlaf ei bod yn neges bwysig a pherthnasol i'w hailadrodd.

Rwy'n siarad yn aml am yr hyn sy'n digwydd wrth y "drws ffrynt", ond rwyf hefyd am sôn am rai o'n gwasanaethau arbenigol gan gynnwys Therapiau Uwch Cymru a'r gwaith gwyb y mae'r tîm yn ei wneud yn y maes meddygaeth fanwl. Y ganolfan CAR-T yn Ysbyty Athrofaol Cymru, dan arweiniad cyfarwyddwr y rhaglen Dr Keith Wilson, yw'r unig ganolfan yng Nghymru sy'n darparu'r math hwn o driniaeth arbenigol i gleifion â lymffoma gradd uwch. Mae'r tîm yn gwneud gwaith rhyfeddol yn gwella canlyniadau i gleifion canser ac wedi parhau i drin hyd at 15 o gleifion y flwyddyn trwy gydol y pandemig. Rwyf am ganmol y gwaith arloesol y maent yn

ei wneud er gwaethaf yr heriau y maent yn eu hwynebu o ran seilwaith ac adnoddau.

Fel Bwrdd Iechyd Prifysgol, mae'n ofynnol i ni ddangos ein bod yn cyflawni'r cylch gwaith sy'n gysylltiedig â statws Ysbyty Athrofaol. Mae ymchwil o bob math a threialon clinigol felly yn weithgaredd hynod bwysig i ni fel tîm. Mae Tîm CAF yn amlwg yn gwneud gwaith arloesol mewn nifer o feysydd ac mae ganddo bartneriaeth gref â Phrifysgol Caerdydd ochr yn ochr â sefydliadau addysg uwch eraill a chyrff mawreddog ledled Cymru, y DU, Ewrop ac yn fyd-eang. Er ei bod yn bwysig dangos gwerth statws Prifysgol, mae rhesymau pwysicach fyth i ni fod yn weithgar yn y maes ymchwil, ac yn barod i ymchwilio. Mae tystiolaeth gref bod sefydliadau gofal iechyd sy'n weithgar yn y maes ymchwil yn darparu gofal o'r ansawdd uchaf ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau oll i gleifion. Mae treialon clinigol yn aml yn creu'r unig gyfle i gleifion gael mynediad at therapiau sy'n newid neu'n achub bywydau, pan fyddant wedi rhoi cynnig ar bob therapi arall, felly am y rheswm hwnnw mae'n wirioneddol bwysig ein bod yn parhau i ehangu ein portffolio o dreialon ac yn chwilio am y cyfleoedd hynny sy'n ymestyn neu'n achub bywyd cleifion fel rhan o'n hymarfer safonol. Mae cymryd rhan mewn ymchwil a threialon clinigol hefyd yn ffordd wych o gael mynediad at ddatblygiad proffesiynol a dysgu. Felly, rydych chi'n gweld bod yna lawer o

resymau i ni ymwneud hyd yn oed yn fwy â'r agenda gyffrous a blaengar hon!

Yr wythnos hon cefais y pleser o ymweld â chydweithwyr o'r Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl yn Hafan y Coed ar gyfer trafodaeth ddifyr wyneb yn wyneb. Mwynheais y drafodaeth a chefais ddealltwriaeth ddyfnach o rai o'r prif heriau a phroblemau y mae'r tîm wedi'u hwynebu, a sut mae'r pandemig wedi effeithio ar eu gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd hi'n wych cael clywed drosof fy hun am rai o'r datblygiadau arloesol a'r addasiadau yr oeddent wedi'u gwneud i drin cleifion yn y ffordd orau posibl drwy fodolau gofal newydd. Gwnaeth pawb gytuno bod angen i ni fanteisio ar y newidiadau cadarnhaol hynny a pharhau i adeiladu arnynt wrth i ni addasu a llunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion cleifion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Da iawn a diolch i bawb sy'n gweithio yn y Bwrdd Clinigol Iechyd Meddwl.

Os hoffech i mi ddod i sesiwn gyda chi a'ch tîm am drafodaeth gadewch i mi wybod drwy e-bostio news@wales.nhs.uk. Mae fy nyddiadur yn llenwi'n gyflym ond rwy'n addo ymateb i'r holl wahoddiadau a gaf maes o law.

Mae Iechyd Meddwl yn rhywbeth y mae angen i ni i gyd ofalu amdano, ac mae effeithiau diweddar cyfnodau hir o ynysu a chyfyngiadau symud wedi dylanwadu ar lawer ohonom ni, a'r rhai yn y cymunedau lleol. Mae cyfoeth o adnoddau hunangymorth ar-lein i gymunedau gael mynediad iddynt os oes angen cymorth arnynt, gan gynnwys Silvercloud, Stepiau a'r Coleg Adfer.

Wrth i ni anelu at fisoedd yr haf gallwn fod yn ddiolchgar am dywydd brafach. Yn rhifyn yr wythnos diwethaf o Cyswllt y Prif Weithredwr

ysgrifennodd Fiona Kinghorn, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, am sut mae'r tywydd cynhesach yn ein hannog i dreulio amser yn yr awyr agored, a all gael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd a'n lles meddyliol a chorfforol. Diolch, Fiona, am ein hatgoffa ni i gyd o bŵer yr heulwen ac awyr iach! Roeddwn yn ddigon ffodus i gael rhywfaint o wyliau blynyddol yr wythnos diwethaf, ac rwy'n sicr yn teimlo'n well ar ôl treulio amser gyda fy nheulu yn yr heulwen.

Rwy'n ddiolchgar i'm holl gydweithwyr sy'n parhau i fod yn ymroddedig i ddarparu'r gofal gorau ar draws gwasanaethau i gleifion, boed hynny yn yr ysbytai neu allan yn y gymuned, am eu gwaith caled parhaus, eu hysbryd cadarnhaol a'u proffesiynoldeb. Diolch.

1. Llwyddiant prosiect WINGS

Hoffwn gyfeirio'n arbennig at gydweithwyr sy'n gweithio o fewn Gwasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS), a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a gafodd sylw yn ddiweddar ar raglen News Today BBC Cymru, ar-lein ac ar radio Brecwast i amlygu llwyddiannau diweddar Gwasanaeth Genomau Babanod a Phlant Cymru, y cyfeirir atynt fel WINGS.

Ers ei weithredu yng ngwanwyn 2020, mae'r gwasanaeth arloesol hwn (sef y cyntaf yn y DU) wedi gweld tua 50 o fabis a babanod sy'n sâl iawn gyda chyflwr genetig prin tybiedig, ac wedi rhoi diagnosis mewn dros 40% o achosion, sy'n ganran anhygoel. Gan ddefnyddio'r Novaseq 6000 a'r dechnoleg y cyfeirir ati fel 'dilyniannu genom cyfan', mae ein staff yn gallu sganio cod DNA cyfan y corff dynol ar gyfer rhwng 6000 – 8000 o glefydau



genetig hysbys, a all gymryd sawl blwyddyn neu fwy fel arall i'w nodi, ynghyd â llawer o ymweliadau ysbyty, y mae gwyddonwyr yn cyfeirio ato fel 'taith ddiagnostig'.

Gyda chymorth cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, mae AWMGS wedi sicrhau ail Novaseq 6000 yn ddiweddar a fydd yn ymestyn cymhwysedd atgyfeirio ymhellach i fwy o gleifion sydd â salwch genetig tybiedig a fydd o gysur mawr i gleifion a'u teuluoedd, gan gynnwys Mam a Thad Babi Thea, sy'n un o'r nifer sydd wedi elwa ar y gwasanaeth ac sydd bellach yn cael ei thrin ar gyfer anhwylder sy'n gysylltiedig ag EIF5A, cyflwr a adroddwyd gyntaf yn 2021, y nodir ei fod ond yn effeithio ar 6 o bobl ledled y byd.

Llongyfarchiadau a diolch i Bennaeth Labordai Genomeg Meddygol Cymru Gyfan, Sian Morgan, y Gwyddonydd Cyfansoddiadol Angharad Williams a'r Ymgynghorydd Mewn Geneteg Glinigol Dr Ollie Murch, sef cynrychiolwyr y gwasanaeth.

[Cliciwch yma i ddarllen y sylwebaeth lawn ar Newyddion BBC Cymru.](#)

2. Dysgu a Datblygu Dementia - pecyn cymorth Darllenwch Amdanaf i

Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu Dementia ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu pecyn cymorth syml i gynorthwyo pobl â dementia neu nam gwybyddol sy'n derbyn gofal meddygol, gan ganiatáu i staff gael gwell dealltwriaeth o'r claf heb fod angen ailadrodd eu stori personol.



Mae'n helpu i gynnal gofal iddynt drwy gydol eu taith a hefyd yn cynnal eu hannibyniaeth ar ôl eu harhosiad.

Mae'n ddogfen syml iawn ac yn hawdd iawn i ofalwyr ei chwblhau. Gall cleifion fynd â'u

llyfryn 'Darllenwch Amdanaf i' gyda nhw lle bynnag y mae eu taith yn mynd â nhw yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.

[Gellir dod o hyd i'r dogfennau a gwybodaeth bellach drwy glicio yma.](#)


Rhannwch y wybodaeth hon gyda phobl â dementia a'u gofalmwyr lle credwch y byddai'n ddefnyddiol iddynt.

[Cliciwch yma i gael gwybodaeth am hyfforddiant a chefnogaeth y mae'r tîm yn eucynnig.](#)

3. Digwyddiad Recriwtio CAF

Nodyn i'ch atgoffa ein bod yn cynnal digwyddiad recriwtio ar 4 Mai rhwng 10am a 3pm, yn arddangos yr amrywiaeth eang o rolau ar draws y Bwrdd Iechyd.

Cynhelir y digwyddiad yng Ngwesty'r Hilton, Caerdydd (CF10 3HH) a bydd yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn dechrau gyrfa gyda'r Bwrdd Iechyd. Bydd mynychwyr yn gallu ymweld â stondinau a siarad â rheolwyr am yr ystod eang o gyfleoedd rhan-amser ac amser llawn sydd ar gael, yn cynnwys meysydd fel gweinyddu, cyfleusterau,



labordai, fflebotomi, nyrsio a llawer mwy.

Bydd aelodau o'n tîm yn bresennol i roi cyngor ar dechnegau cyfweiliad a cheisiadau am swyddi, yn ogystal â rhannu eu profiadau o weithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r swyddi sydd ar gael yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhai a restrir yn yr adran swyddi ar ein gwefan. Rhowch wybod i'ch teulu a'ch ffrindiau. Edrychwn ymlaen at eich croesawu ar y diwrnod.

4. Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro

Mae tîm o 25 aelod o staff yn Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, yn trefnu Rhian's Ramble – taith gerdded 870 milltir rhyngddynt, sy'n cwmpasu tua chyfanswm milltiroedd Llwybr Arfordir Cymru, i godi arian ar gyfer Apêl Canolfan y Fron. [I gyfrannu, ewch i'r ddolen hon.](#)

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn falch iawn o gyhoeddi cydweithrediad rhwng ein Hapêl Canolfan y Fron a CancerPal, sefydliad sy'n darparu

Blychau Gofal a chynnyrch i helpu i leddfu sgil-efeithiau triniaeth canser. [Gallwch ddarllen mwy amdano drwy glicio ar y ddolen hon.](#)

Mae cymaint o ddarnau gwyb o waith celf ar gael i'w prynu yn Arwerthiant Celf Ar-lein y GIG 2022, sy'n codi arian ar gyfer Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles. Mae'r arwerthiant yn cael ei gynnal ar-lein tan ddydd Llun 2 Mai 2022. [Cyflwynwch eich ceisiadau drwy glicio ar y ddolen hon.](#)

[I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan yr elusen yma.](#)

